# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips and G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd J. Jenkins, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio S/35962 a S/36429;
Y Cynghorydd K. Broom, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio S/35028.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 1:30pm - 5:25pm**
[Sylwer:
1) Er mwyn datrys dadl ynghylch datgan buddiant a cheisio cyngor gan gyfreithiwr, gadawodd y Pwyllgor y siambr am 2:10pm ac ailymgynnull am 2:20pm;
2) Am 4:30pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol Gweithdrefn y Cyngor 9 – Hyd y cyfarfod ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod ar waith ers bron tair awr, **PENDERFYNWYD** gohirio rheolau sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda;
3) Cafodd y Pwyllgor 5 munud o egwyl am 4:30pm, cyn ailgynnull am 4.35pm.]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd J.E. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| G.B. Thomas | Eitem 3.1 – DATBLYGIAD PRESWYL I GYNNWYS 51 O BRESWYLFEYDD YNGHYD Â GWAITH CYSYLLTIEDIG, TIR GER CLOS Y BENALLT FAWR, FFOREST, ABERTAWE, SA4 0TQ | Yn unol â pharagraff 8a yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau. |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

## 3. YSTRIED ADRODDIADAU'R PENNAETH CYNLLUNIO YNGHYLCH Y CEISIADAU CYNLLUNIO CANLYNOL [YR YMWELODD Y PWYLLGOR Â'U SAFLEOEDD YN FLAENOROL] A PHENDERFYNU AR Y CEISIADAU

### 3.1. S/35215 - DATBLYGIAD PRESWYL I GYNNWYS 51 O BRESWYLFEYDD YNGHYD Â GWAITH CYSYLLTIEDIG, TIR GER CLOS Y BENALLT FAWR, FFOREST, ABERTAWE, SA4 0TQ

[Sylwer: Yn unol â pharagraff 8a yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau, gadawodd y Cynghorydd Gareth Thomas y cyfarfod cyn bod yr eitem yn cael ei thrafod a phenderfynu arno.

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.1 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 11 Ionawr 2018), er mwyn i'r Pwyllgor asesu gwelededd a mynediad i'r safle o Heol y Fforest. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ailbwysleisiai'r gwrthwynebiadau a oedd wedi'u nodi yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio lle roedd prif bwyslais y gwrthwynebiadau yn canolbwyntio ar bryderon ynghylch y pwll casglu dŵr a'r cefnfur, yr effaith ar gymeriad Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Llwchwr yn gyffredinol, ynghyd â chapasiti cyffordd Clos Benallt â'r A48.

Ymatebodd yr Ymgeisydd, yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a'r Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio) i'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD:-**

**3.1.1 gwrthod cais cynllunio S/35215 yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio gan fod y Pwyllgor yn barnu bod y datblygiad yn groes i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, sef EQ6, TR3 a Nodyn Cyngor Technegol 12;**

**3.1.2. bod y Pennaeth Cynllunio yn cyflwyno adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol, i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor, yn manylu ar y rhesymau cynllunio dros wrthod y cais a hynny'n seiliedig ar yr uchod.**

**3.2. S/35962 - CADW'R LLAWR GWAELOD FEL BAR CAFFI YN YSTOD Y DYDD GAN DDEFNYDDIO CEFN Y LLAWR GWAELOD A'R LLAWR CYNTAF FEL CLWB NOS YN YSTOD Y NOS YNGHYD AG YCHWANEGU GRISIAU SY'N DDIHANGFA DÂN YN Y CEFN, 56 STRYD STEPNEY, LLANELLI, SA15 3TG**

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.2 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 11 Ionawr 2018) er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y safle i gael gwell amcan o leoliad y clwb nos arfaethedig mewn perthynas â'r eiddo cyfagos.

Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

Daeth sylw a wrthwynebai'r cais i law gan yr aelod lleol, ac a ailbwysleisiai'r gwrthwynebiadau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio. Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais cynllunio S/35962, yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio.**

**3.3. S/36429 - ESTYNIAD DEULAWR AR YR OCHR YNGHYD Â PHORTH CEIR AR LEFEL Y DDAEAR, 36 COEDLAN PARC Y STRADE, LLANELLI, SA15 3EF**

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.2 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 11 Ionawr 2018) er mwyn galluogi'r Pwyllgor i asesu a allai'r cynnig gael effaith niweidiol ar amwynder yr eiddo cyfagos o ran colli golau, ac ystyried cymeriad y cynnig mewn perthynas â'r ardal. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ailbwysleisiai'r gwrthwynebiadau a oedd wedi'u nodi yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio; roedd y prif feysydd a oedd yn peri pryder yn ymwneud â natur ormesol yr estyniad a cholli golau, ynghyd â phryderon y byddai'r cais yn arwain at newid cymeriad golwg y stryd yng Nghoedlan Parc y Strade.

Ymatebodd yr Ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais cynllunio S/36429 yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio oherwydd bod y Pwyllgor o'r farn bod y datblygiad yn groes i bolisi Cynllun Datblygu Lleol GP6 ar y sail y byddai amwynder yr estyniad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar yr eiddo cyfagos o ran colli golau.**

**3.4. S/35028 - PRESWYLFA DDEULAWR, 15A BRYNCAERAU, TRIMSARAN, CYDWELI, SA17 4DW.**

[Sylwer: Nid oedd y Cynghorydd Joseph Davies yn bresennol yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2017 ac felly nid oedd wedi cyfrannu at y broses o benderfynu neu bleidleisio ar benderfyniad y cais.]

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.2 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 11 Ionawr 2018), er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle a'i fynediad yn sgil y pryderon a fynegwyd ynghylch diogelwch ffyrdd. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd yn ei hadroddiad ysgrifenedig hi.

Rhoddodd yr aelod lleol a oedd yn cefnogi'r cais wybod bod yr ymgeisydd bellach wedi llofnodi'r adran 106 a bod y cymydog ar ochr dde'r eiddo yn agored i drafod unrhyw ddatblygiadau gofynnol.

Ymatebodd y Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio) i'r ymholiadau a godwyd mewn perthynas â'r posibilrwydd o wella gwelededd ar dir trydydd parti ar y safle.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio'r cais cynllunio er mwyn galluogi'r swyddog achos i gysylltu â'r ymgeisydd i drafod y posibilrwydd o wella gwelededd dros dir trydydd parti gerllaw.**

**4. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR**

**4.1. 1AF RHAGFYR 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir.**

**4.2. 14EG RHAGFYR 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[*SYLWCH: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]